Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Cynfal
# Ffestiniog
# Blaenau Ffestiniog
# Gwynedd
# LL41 4NF

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2016**

## Cyd-destun

Mae ysgol gynradd Bro Cynfal yn gwasanaethu pentref Llan Ffestiniog a’r cyffiniau. Fe’i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae’n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae 70 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 14 oed meithrin rhan-amser. Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn 3 dosbarth oed cymysg, gan gynnwys disgyblion oed meithrin. Mae’r niferoedd wedi codi’n gyson dros y tair blynedd ddiwethaf.

Tua 79% o’r disgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref. Mae 16% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n is na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae oddeutu 28% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy’n uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ychydig iawn o ddisgyblion ar y gofrestr. . Ychydig iawn sydd o dan ofal yr awdurdod.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mai 2009. Penodwyd y pennaeth presennol i’w swydd yn Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys ym mis Ionawr 2013 fel trefniant ‘ffederal meddal’.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Cynfal yn 2015-2016 yw £4,821. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £12,116, a'r lleiafswm yw £2,981. Mae Ysgol Bro Cynfal yn y 23ain safle o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus ar lafar, gan ddefnyddio geirfa a chystrawen gynyddol gywir yn y Gymraeg
- lleiafrif o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn caffael y Gymraeg yn gyflym ac yn llwyddiannus
- medrau mathemategol rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gadarn
- rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd
- aelodau'r cyngor ysgol yn weithgar ac wedi cyflwyno nifer o weithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion
- yr holl staff yn modelu iaith glir a chywir, sy'n cyfrannu'n dda at safonau llafar y disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn ddigon rheolaidd
- nid yw egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llawn ym Mlwyddyn 2
- nid oes gan yr ysgol drefn cynllunio gadarn na chyson sy'n sicrhau dilyniant a pharhad
- mae gor-arwain gan staff yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol nac i gymryd rôl lawn yn eu dysgu eu hunain
- nid yw'r marcio ar frig yr ysgol yn rhoi arweiniad digon clir i'r disgyblion ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith, yn enwedig mewn pynciau sylfaen

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a chynnwys holl randdeiliaid ym mhrosesau'r ysgol
- cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n glir ar safonau a deilliannau disgyblion
- yr ysgol yn gwneud cynnydd addas wrth gyflwyno rhai mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau
- y cynllun datblyguyn fanwl, yn nodi targedau penodol ac yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddeilliannau disgyblion

Fodd bynnag:

- nid oes trefniadau cadarn ar waith i'r uwch dîm rheoli gydweithio, cynllunio fel tîm, monitro na gosod strategaeth glir ar gyfer gwelliant
- cyfyng yw rôl y staff a'r llywodraethwyr ym mhrosesau arfarnu gwaith yr ysgol
- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn ddigon arfarnol na dadansoddol i adnabod y gweithgareddau mwyaf effeithiol i symud yr ysgol ymlaen
- nid oes gan arweinwyr drosolwg digon clir o gryfderau'r ysgol na'r meysydd i'w datblygu

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella ansawdd y cynllunio er mwyn sicrhau bod yr holl bynciau a meysydd dysguyn derbyn sylw haeddiannol a bod datblygiad a pharhad clir i'w gweld yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion

A3 Sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n gadarn ym Mlwyddyn 2

A4 Cryfhau sylwadau athrawon ar waith disgyblion cyfnod allweddol 2 ar draws y cwricwlwm

A5 Cryfhau rôl yr uwch dîm rheoli i weithredu'n fwy strategol er mwyn monitro'n fwy effeithiol a mynd i'r afael â'r gwendidau yn y safonau a'r ddarpariaeth

A6 Sicrhau ymglymiad holl randdeiliaid yr ysgol yn y broses hunanarfarnu a gwella ansawdd yr adroddiad hunanarfarnu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn amrywio. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau. Serch hynny, nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu. Mae llawer yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol ac yn datrys problemau'n effeithiol trwy ddefnyddio eu medrau meddwl yn effeithiol.

Mae medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn ymateb yn hyderus ar lafar, gan ddefnyddio geirfa a chystrawen gynyddol gywir yn y Gymraeg. Gall llawer sgwrsio'n naturiol a rhugl am eu gwaith o oed cynnar. Mae'r lleiafrif nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn caffael y Gymraeg yn gyflym ac yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf eirfa bynciol dda. Maent yn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau dosbarth gan fynegi barn yn glir am y gwaith thema a'r gwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Ar frig y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen gydag ystyr a dealltwriaeth briodol o'r testun. Mae ychydig iawn o ddisgyblion sy'n ddarllenwyr mwy hyderus yn newid goslef llais yn effeithiol er mwyn dal sylw'r gwrandawyr. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen ychydig o ddisgyblion wedi datblygu'n llawn ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r testun. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith. Maent yn talu sylw dyledus i atalnodi. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn hyderus brif ddigwyddiadau a chymeriadau yn eu llyfrau cyfredol. Ar draws y cyfnod, mae llawer yn defnyddio uwch fedrau darllen yn dda wrth gywain gwybodaeth mewn llyfrau cyfeirio, er enghraifft wrth ddarganfod ffeithiau am afonydd yn Affrica.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau ar draws y meysydd dysgu, gan ddefnyddio strwythur brawddegau clir ac atalnodi sylfaenol. Maent yn defnyddio ansoddeiriau a geirfa addas yn eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad yn dilyn ymweliad â fferm leol. Fodd bynnag, prin yw'r cynnwys. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu yn y ddwy iaith. Maent yn ysgrifennu'n gynyddol gywir ac estynedig mewn amrywiaeth eang o ffurfiau yn eu gwersi iaith gan ddefnyddio idiomau a chymariaethau yn llwyddiannus, yn arbennig wrth ysgrifennu darnau creadigol a ffeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson yn seiliedig ar gymeriad mewn llyfr. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu rhydd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Mae gorddibyniaeth ar daflenni yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ysgrifennu'n estynedig.

Mae safonau llafar ac ysgrifennu Saesneg llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Maent yn sgwrsio'n frwdfrydig am faterion yn ymwneud â thema yr Ail Ryfel Byd gan ddefnyddio geirfa benodol o fewn cyd-destun y gwaith. Erbyn iddynt gyrraedd diwedd y cyfnod, mae llawer yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol ac yn eu cofnodi drwy ysgrifennu'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o ffurfiau. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion yn ysgrifennu dyddiadur yn seiliedig ar lyfr 'Tirion's Secret Journal' ac wrth greu taflen wybodaeth am 'Crocodiles and Alligators'. Mae llawer yn atalnodi eu gwaith yn gyson gydag ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa ehangach i greu effeithiau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn ddigon rheolaidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol, ond mewn ystod gyfyng o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn llwyddo i drin data'n effeithiol a chreu graff bloc o'r canlyniadau yn annibynnol. Mae mwyafrif yn cymhwyso'u medrau rhif yn addas i ddatrys problemau syml yn seiliedig ar thema'r dosbarth. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion yn cyfrifo sawl ŵy y gellir eu prynu gyda swm penodol o arian. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau mathemateg yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio strategaethau addas i ddod o hyd i berimedr siapiau 2D a chyfrifo arwynebedd siapiau afreolaidd yn gynyddol gywir. Ond nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn cyflawni i'w llawn botensial. Mewn gwyddoniaeth, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn addas wrth gofnodi canlyniadau ymchwiliadau gwyddonol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson mewn agweddau eraill ar draws y cwricwlwm.

Yn aml dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. O ganlyniad, nid yw'r tueddiadau o ran perfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg nac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol yn ddibynadwy.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig yn gyffredinol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg a datblygiad mathemategol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae tuedd amlwg ar i lawr mewn llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol a rhwng y 25% uchaf a'r 50% is mewn llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ymhob pwnc craidd wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Yn gyffredinol, mae tuedd ar ei lawr ymhob pwnc craidd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Cymraeg a Saesneg wedi amrywio a rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf tra bod perfformiad yr ysgol mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn fwy cyson yn y 25% a'r 50% uchaf dros y pedair blynedd diwethaf. Gan fod niferoedd mor fach, nid yw'n bosibl cymharu perfformiad bechgyn a merched na pherfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim â'r rhai nad ydynt yn gymwys.

**Lles: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini a'r effaith gadarnhaol mae hyn yn ei chael ar eu hiechyd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth pan fo angen. Mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau penodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw ddisgyblion yn gweithredu'n ddigon annibynnol nac yn arwain eu dysgu eu hunain yn ddigon llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ac mae patrwm o gynnydd yng nghanran presenoldeb yr ysgol. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb yr ysgol wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn weithgar ac wedi cyflwyno nifer o weithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion. Enghraifft o hyn yw'r gweithgareddau corfforol a drefnir yn ystod amser cinio i hybu ffitrwydd disgyblion. Maent yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at faterion sy'n ymwneud â'r ysgol.

Mae gan ddisgyblion dargedau pwrpasol ar gyfer gwella eu gwaith. Fodd bynnag, gan nad yw'r targedau bob amser yn ddigon miniog, nid yw eu dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith wedi eu datblygu'n llawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Er bod cynlluniau gwaith yr ysgol yn seiliedig ar gyflwyno egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, nid oes trefn gadarn na chyson i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n gyflawn, na dilyniant a pharhad clir yn y rhaglenni astudio. Mae'r ysgol wedi cynllunio'n briodol ar gyfer cyflwyno'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol; fodd bynnag, nid yw'n cael ei gynnwys yn ddigon rheolaidd yng ngwaith y dosbarthiadau. Mae'r ysgol wedi dechrau ymgorffori gofynion y Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd yng nghynlluniau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn eto wedi datblygu'n llawn nac wedi ei gydlynu'n ddigon bwriadus. Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer TGCh, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau rhan fwyaf y disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi dysgu disgyblion yn dda. Enghreifftiau da o hyn yw clwb yr Urdd a'r clwb garddio.

Mae darpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn. Mae ymrwymiad yr ysgol i Siarter Iaith Gwynedd yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu hardal ac am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft drwy gydweithio â'r artist Catrin Williams a'r cerddor Gai Toms ar brosiect celf a barddoniaeth ar y thema Blodeuwedd.

Mae'r cyngor eco yn cyfrannu'n effeithiol tuag at leihau gwastraff, er enghraifft trwy ailgylchu dillad, plastig a phapur a chasglu sbwriel o amgylch y pentref. Trwy waith thema, mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn datblygu'n dda. Mae ysgol yn anfon bocsys o anrhegion Nadolig i blant yn Romania a Belarus yn flynyddol. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o ddisgyblion o bwysigrwydd gofalu am y byd ehangach yn dda.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio ystod o brofiadau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae pwyslais clir ar gyflwyno cwricwlwm ymarferol, sy'n gyffrous ac yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn gyson. Er bod mwyafrif yr athrawon a chymorthyddion yn sicrhau darpariaeth a chefnogaeth gadarn i unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr, nid ydynt bob amser yn gwahaniaethu'r gweithgareddau'n ddigon gofalus i herio'r disgyblion mwy abl.

Mae'r holl staff yn modelu iaith glir a chywir, sy'n cyfrannu'n dda at safonau llafar y disgyblion. Yn yr ychydig enghreifftiau lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae gor-arwain gan staff yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl lawn yn eu dysgu eu hunain. Nid yw egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llawn ym mlwyddyn 2.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith, ond anghyson yw'r defnydd gorau ohonynt ar draws yr ysgol. Gan amlaf, caiff amcanion dysgu addas eu rhannu gyda'r disgyblion ond prin yw rôl y disgyblion yn y broses hon. Ar y cyfan, mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn effeithiol ac, yn gyffredinol, mae eu sylwadau'n adeiladol. Fodd bynnag, nid yw'r marcio ar frig yr ysgol yn rhoi arweiniad digon clir i'r disgyblion ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith, yn enwedig mewn mathemateg a'r pynciau craidd.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol er mwyn adnabod anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn meysydd penodol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r defnydd a wneir o ganlyniadau asesu i fwydo'r cynllunio.

Mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r rhieni yn cynnig gwybodaeth addas iddynt ar gynnydd eu plant ond nid oes cyfeiriad digon clir at dargedau ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar ac mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Trwy ystod eang o weithgareddau corfforol yn ystod yr awr ginio ac mewn clybiau ar ôl yr ysgol, caiff disgyblion amrywiaeth o gyfleoedd i gynyddu eu lefelau iechyd a ffitrwydd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o wasanaethau arbenigol fel y therapydd iaith a'r heddwas lleol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau lles disgyblion. Trwy wasanaethau rheolaidd a chyfleoedd i fyfyrio, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae gan y disgyblion hyn fynediad llawn i'r cwricwlwm. Defnyddia'r ysgol amrywiaeth o ddulliau effeithiol i adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar ac maent yn sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol ar eu cyfer. Mae disgyblion ac athrawon yn cydweithio'n briodol ar y cynlluniau addysg unigol. Ar y cyfan, mae cynlluniau unigol yn nodi targedau penodol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cartrefol, gofalgar, Cymreig sy'n annog parch tuag at blant ac oedolion. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth. Ceir amgylchedd hamddenol, lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel.

Gwneir defnydd priodol o'r adeilad a'r tir, sy'n annog y disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae'r adeilad yn ddeniadol ac yn darparu amgylchedd ysgogol i ddisgyblion. Mae arddangosfeydd yn yr ystafelloedd ac ar hyd y coridorau yn dathlu gwaith y disgyblion yn llwyddiannus ac yn arf cyfoethog i atgyfnerthu'r dysgu. Mae hyn yn ennyn parch disgyblion at eu gwaith.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau sy'n cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol. Mae ganddi gyflenwad addas o adnoddau TGCh sy'n datblygu medrau digidol y dysgwyr yn dda. Mae safle'r ysgol yn ddiogel a chaiff y safle a'r adeilad eu cynnal a'u cadw'n lân a thaclus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a chynnwys yr holl randdeiliaid ym mhrosesau'r ysgol. Er hynny, cyfyng yw'r ymdeimlad o waith tîm

sy’n bodoli. Nid oes trefniadau cadarn yn bodoli i roi cyfleoedd rheolaidd i aelodau’r uwch dîm rheoli gydweithio, i gynllunio fel tîm, i fonitro’n effeithiol, nac i osod strategaeth glir ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr drosolwg digon clir o gryfderau’r ysgol na’r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae gan bob aelod staff swydd ddisgrifiad perthnasol ac, ar y cyfan, maent yn ymgymryd â’u rolau unigol yn gydwybodol gan lwyddo i greu cyfleoedd dysgu ysgogol i ddisgyblion. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd sy’n canolbwyntio’n glir ar safonau a deilliannau disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol ar gyfer staff addysgu sy’n cynnig cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol.

Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd addas wrth gyflwyno rhai mentrau sy’n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel y Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae’r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddata perfformiad ac maent wedi dechrau ymweld â’r ysgol i arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o safonau a gwaith yr ysgol yn datblygu’n briodol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl ym mhrosesau strategol a threfniadau hunanarfarnu’r ysgol wedi’i datblygu’n llawn ac, o’r herwydd, nid ydynt yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigon effeithiol am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol brosesau penodol ar gyfer hunanarfarnu, sydd wedi’u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol. Mae’r dystiolaeth yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion, adolygu agweddau ar y ddarpariaeth a dadansoddi data rheolaidd. Er bod y pennaeth yn cywain barn disgyblion a rhieni yn effeithiol, cyfyng yw rôl y staff a’r llywodraethwyr yn y prosesau hyn hyd yma. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd addas o’r wybodaeth a gesglir trwy’r broses hunanarfarnu i fwydo’r adroddiad hunanarfarnu ac i bennu blaenoriaethau a meysydd ffocws ar gyfer gwella’r ysgol.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu, er nad yw’n ddigon arfarnol na dadansoddol, yn nodi nifer helaeth o faterion cwricwlaidd a rheolaethol i’w datblygu. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn nodi’r gweithgareddau na’r blaenoriaethau fwyaf effeithiol a fyddai’n debygol o symud yr ysgol ymlaen, er enghraifft y diffygion a welir yn y cynllunio.

Mae’r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen fanwl sy’n nodi targedau penodol yn glir ac sy’n canolbwyntio’n uniongyrchol ar ddeilliannau disgyblion. Mae’n rhoi amlinelliad clir o feini prawf llwyddiant, cyfrifoldebau staff, ac adroddiadau monitro cynnydd tymhorol defnyddiol. Caiff y cynllun datblygu ei fonitro’n effeithiol gan y pennaeth a’r staff ac mae hyn yn sicrhau y gwneir cynnydd addas yn erbyn y blaenoriaethau a nodir ynddo. Mae adroddiadau monitro blaenoriaethau tymhorol yn ddefnyddiol ac yn fodd effeithiol i adnabod y camau ar gyfer gwelliant.

Mae’r ysgol wedi mynd i’r afael â’r mwyafrif o’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella safonau a lles disgyblion. Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae cyfeillion yr ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian yn rheolaidd. Caiff yr arian ei ddefnyddio'n llwyddiannus i brynu adnoddau a chaledwedd TGCh, sy'n cyfoethogi'r dysgu yn dda.

Mae partneriaeth lwyddiannus yn bodoli gyda'r cylch meithrin lleol. Mae'r cydweithio a'r ddarpariaeth yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen. Mae trefniadau pontio effeithiol hefyd yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd sy'n sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd y dalgylch i gyd-safoni a chymedroli asesiadau athrawon er mwyn sicrhau cysondeb yn yr asesiadau ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau amrywiol yn yr awdurdod lleol i wella lles disgyblion.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae aelodau o'r gymuned yn gwrando ar ddisgyblion yn darllen Saesneg yn rheolaidd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r ysgol hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaethau amrywiol yn yr eglwys a'r capel lleol. Mae gweithgareddau cymunedol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith mae'r ysgol yn ei wneud mewn partneriaeth â 'Cadw Cymru'n Daclus'. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o falchder at eu hardal leol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar y gyllideb ac mae'r gwariant yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac anghenion unigolion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn cynnal cynlluniau ymyrraeth ar gyfer disgyblion penodol. Mae'r trefniadau hyn yn dechrau cael effaith briodol ar safonau darllen disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau pwrpasol ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon. Mae'n gwneud defnydd medrus o'r cymorthyddion sy'n gwneud cyfraniad addas at brofiadau dysgu ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar godi safon gwaith a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon ac mae pob un o'r staff yn elwa o hyfforddiant sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned dysgu effeithiol, sy'n cyfrannu at rwydweithiau o arfer broffesiynol, er enghraifft i ddatblygu medrau rhesymu mathemateg.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau dysgu effeithiol. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i ysgogi'r disgyblion. Gwna'r staff ddefnydd llawn o gyfleusterau'r ysgol i hyrwyddo'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, defnydd

effeithiol o’r ardal tu allan i ddatblygu medrau a phrofiadau’r disgyblion ar draws y meysydd dysgu, yn enwedig ar waelod Cyfnod Sylfaen.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, a’r ddarpariaeth, mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612190 - Ysgol Bro Cynfal**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 63 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.7 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | * | 8 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 62.5 | * | 87.5 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | * | 8 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | * | 87.5 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | * | 25.0 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | * | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | * | 8 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | * | 100.0 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | * | 25.0 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | * | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | * | 8 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 75.0 | * | 100.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | * | 50.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612190 - Ysgol Bro Cynfal**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 63 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.7 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | 5 | 8 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.7 | 100.0 | 87.5 | * |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | * |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 8 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 100.0 | 87.5 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 62.5 | * |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 7 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 85.7 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 8 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 100.0 | 87.5 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 8 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 62.5 | * |
| Chwartel meincnod | * | * | 1 | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 24 | 23<br>96%<br>98% | 1<br>4%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 24 | 24<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 24 | 24<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 21 | 19<br>90%<br>97% | 2<br>10%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 22 | 21<br>95%<br>96% | 1<br>5%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 23 | 22<br>96%<br>96% | 1<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 24 | 24<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 24 | 24<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 23 | 20<br>87%<br>91% | 3<br>13%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 24 | 24<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 24 | 19<br>79%<br>77% | 5<br>21%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 24 | 24<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 21 | 12 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 20 | 14 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 21 | 14 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 20 | 10 | 10 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 19 | 7 | 11 | 1 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 37% | 58% | 5% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 20 | 11 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 21 | 12 | 7 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 57% | 33% | 10% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 20 | 9 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 45% | 55% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 20 | 12 | 8 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 11 | 9 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 52% | 43% | 5% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 21 | 11 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 52% | 48% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 16 | 8 | 6 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 38% | 12% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 20 | 9 | 10 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 45% | 50% | 5% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 21 | 12<br>57% | 7<br>33% | 1<br>5% | 1<br>5% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 21 | 8<br>38% | 11<br>52% | 2<br>10% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 20 | 13<br>65% | 7<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 9 | 5<br>56% | 4<br>44% | 0<br>0% | 0<br>0% | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 20 | 10<br>50% | 9<br>45% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 20 | 10<br>50% | 9<br>45% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Einir Wynne Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iona Wynne Jones | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.